

# Gwastraff Busnes – Gwybodaeth a Chyngor

## Beth yw gwastraff busnes?

Yn ôl Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, y diffiniad o wastraff busnes yw gwastraff o safle a ddefnyddir ar gyfer masnachu neu fusnes, neu at ddibenion chwaraeon, hamdden neu adloniant. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno "dyletswydd gofal" y mae'n rhaid i bob busnes gydymffurfio â hi.

## "Dyletswydd Gofal" – beth yw ystyr hynny?

Rhaid ichi gymryd pob cam rhesymol i gadw gwastraff yn ddiogel a'i waredu'n briodol. Os byddwch yn rhoi eich gwastraff i rywun arall, rhaid ichi sicrhau bod ganddynt drwydded i'w gasglu a'i waredu yn unol â'r ddyletswydd gofal.

## Sut y dylid storio a gwaredu gwastraff busnes?

Rydych chi'n gyfrifol am eich gwastraff busnes a rhaid ichi reoli'r modd y mae'n cael ei storio a'i waredu.

Rhaid ichi sicrhau:

- Bod yr holl wastraff yn cael ei gadw'n ddiogel mewn cynhwysydd addas.
- Bod gan bwy bynnag y byddwch yn rhoi eich gwastraff iddo awdurdod i fynd ag ef, h.y. cludydd gwastraff cofrestredig.
- Pan fydd eich gwastraff yn cael ei drosglwyddo, fod nodyn trosglwyddo gwastraff yn mynd gydag ef.
- Rhaid cadw Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff am ddwy flynedd a rhaid iddynt fod ar gael i swyddogion awdurdodedig os gofynnir amdanynt.

## Pa gamau y mae angen imi eu cymryd i gydymffurfio â'm "dyletswydd gofal"?

Dylech wneud y canlynol:

- Prynu neu logi biniau addas i storio eich gwastraff.
- Storio eich gwastraff yn ddiogel – mewn cynhwysydd fel na all y cyhoedd, anifeiliaid neu fermin fynd iddo.
- Trefnu contract gyda chludydd gwastraff cofrestredig, a fydd yn darparu biniau storio, gwasanaeth casglu a'r gwaith papur angenrheidiol.
- Rhoi gwybod i'ch holl staff sut y dylent waredu sbwriel yn gyfreithlon – yn ysgrifenedig os oes modd.

## Beth nad oes gennyf hawl i'w wneud â'm gwastraff busnes?

NID oes gennyf hawl i wneud y canlynol:

- Mynd â'ch gwastraff busnes adref a'i roi yn y bin yn eich cartref.
- Mynd â'ch gwastraff busnes i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref sy'n eiddo i'r Cyngor, oni bai eich bod yn datgan ei fod yn wastraff busnes yn yr orsaf drosglwyddo ac yn talu'r ffi waredu berthnasol.
- Rhoi eich gwastraff busnes mewn unrhyw fin sbwriel cyhoeddus neu fanc ailgylchu cyhoeddus.

Os na fyddwch yn cydymffurfio, gellir eich erlyn a'ch dirwyo.

## Sut y gallaf drefnu i'm gwastraff busnes gael ei gasglu?

Mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaeth casglu bagiau gwastraff masnach, ar gyfer gwastraff cyffredinol, ond mae nifer o gludwyr gwastraff cofrestredig lleol, sydd â phrisiau cystadleuol, a all ddarparu gwasanaeth casglu ar eich cyfer. Gellir dod o hyd i'r rhain mewn cyfeirlyfrau ffôn neu ar-lein.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.sirgar.gov.uk](http://www.sirgar.gov.uk)